04.05.2016

Ingrid Deltenre

dgo@ebu.ch

Annwyl Ingrid Deltenre

Rwy'n ysgrifennu ar frys fel aelod darlledu o'r EBU yn dilyn adroddiadau fod yr EBU wedi gosod baner genedlaethol Cymru ar "restr waharddedig" ar gyfer cystadleuaeth Eurovision.

Fel y gallwch ddisgwyl mae'r fath newydd wedi esgor ar feirniadaeth lem ac mae'n cael ei weld gan nifer o bobl yma yng Nghymru fel sarhad a thriniaeth annheg.

Tra nad yw Cymru'n cystadlu yn y gystadleuaeth Eurovision, byddwch efallai'n ymwybodol, eleni mae un o gantorion cais Prydain yn Gymro. Mae gan Gymru hanes hir o ymwneud â'r gystadleuaeth. Y llynedd roedd un o aelodau'r grŵp oedd yn cynrychioli Armenia yn dod o Gymru, a thros y blynyddol mae nifer o artistiaid Cymreig wedi cystadlu.

Fel darlledwr mae S4C yn hynod o falch o adlewyrchu bywyd yng Nghymru, ac o allu rhoi llwyfan pwysig i'r iaith Gymraeg. Fel aelod o'r EBU rydym yn llwyr gefnogi'r egwyddor o barch i amrywiaeth diwylliannol a'r mynegiant ohono y mae'r sefydliad wedi ei ailddatgan yn falch yn ddiweddar. Ar ddiwedd 2015 fe fabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol yr EBU ddatganiad a wnaed i nodi deg mlwyddiant Confensiwn UNESCO Amddiffyn a Hybu Amrywiaeth o Fynegiant Diwylliannol. Er, mae hepgor rhai baneri cenedlaethol cydnabyddedig, megis un Cymru, yn ymddangos yn anghyson gyda'r egwyddorion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad yma, ac o'r herwydd yn tanseilio'r gefnogaeth i'n gwaith.

Mae baner Cymru yn cael ei hedfan yn falch gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac o Swyddfa Cymru yn Whitehall, Llundain. Mae ein baner yn cael ei defnyddio i farchnata bwyd a diod ar draws y byd. Mae hi'n cael ei gwisgo gan ein timoedd cenedlaethol pan maent yn cystadlu - gan gynnwys ein tîm pêl-droed cenedlaethol eleni yn nhwrnamaint Euro2016. Mae hi'n cael ei gweld ar nifer o adeiladau cyhoeddus ar draws y byd ar ddydd gŵyl Ddewi, nawddsant Cymru. Mae'r canfyddiad sy'n deillio o eithrio baner Cymru yn creu argraff negyddol anhaeddiannol a diangen.

Rydym yn gobeithio y gallwch ail-ystyried y penderfyniad hwn ar frys gan adfer yr EBU i'r egwyddorion y mae yn e'n cysylltu ei hun.

Yr eiddoch yn gywir

Ian Jones
Prif Weithredwr